# EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU
# SIR DDINBYCH 2022

Urdd

## Rhif 139 – Llefaru Unigol Bl 7, 8 a 9 (D)

### Oes rhaid i mi?

Oes rhaid i mi
Ddarllen y darllen a deall
Ac ateb y cwestiynau
Ar gyfer yr ail wers yfory?

Oes rhaid i mi
Wrando a deall y sgwrsio
A llenwi'r holl fylchau
Ar gyfer gwers pedwar yfory?

Oes rhaid i mi
Ddarllen a chlywed yr hanes
Am grio a gormes
Yn Syria draw?

Oes rhaid i mi wrando
Ar fwletin radio
Am blant bach digartref
Yn llwgu yng nghanol y baw?

Mae'n rhaid i mi wrando
Mae'n rhaid i mi gofio
Ac wrth gydymdeimlo
Mae'n rhaid i mi estyn fy llaw.

**TRYSTAN DAFYDD**